



# Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

## CYFARFOD GALW HEIBIO CYMUNEDOL (EFFAITH PHYTOPHTHORA RAMORUM AR GOEDWIGOEDD)

Diolch yn fawr am fynychu'r cyfarfod galw heibio diweddar a gynhaliwyd yn Neuadd Henderson Talybont ar 8 Gorffennaf. Oherwydd y cynnydd sylweddol yn yr haint *P. Ramorum* yn ein coed llarwydd roeddem am gysylltu â'n cymunedau ar hyd a lled canol y Bannau a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi.

Hoffem ddiolch i Roger Williams AS, am ymuno â ni am y rhan fwyaf o'r prynhawn, gan wrando ar ein pryderon.

Diolch hefyd am gefnogaeth leol Regan o siop Talybont a ddarparodd luniaeth ysgafn

Yn y sesiwn galw heibio, cawsom lawer o gwestiynau tebyg ac rydym wedi rhoi ein gair y byddwn yn ceisio ateb rhai cwestiynau penodol yn well. Dyma gasgliad o'r cwestiynau a'r atebion hyn. Gobeithio bod y digwyddiad wedi bod o fudd i chi.

### **Faint o risg sydd y bydd y sborau'n ymledu os nad yw'r pren ganghennau'n cael eu llosgi neu eu symud?**

Mae *Phytophthora ramorum* yn lledu drwy hadau microsgopig o'r enw sborau. Mae'n cynhyrchu dau fath o sborau 1. sborau gorffwys (clamydosbor) a 2. sŵosborau. Yr unig bryd y caiff y sborau hyn eu cynhyrchu yw pan fo pathogen yn dod i gysylltiad â choed byw neu feinwe planhigion. Os yw coeden yn cael ei chwympto, mae'r goeden honno'n marw. Gan mai prin yw adnoddau pren canghennau, gall tocio'r goeden (tocio'r canghennau), atal haint rhag lledu oherwydd heb yr adnoddau hyn, ni all sborau ymledu.

Mae'r ddau wahanol fath o sborau yn gweithredu mewn ffyrdd gwahanol ac yn amrywio o ran hyd oes. Mae'r sborau gorffwys yn byw am gyfnod hir a gallant orosi mewn pridd neu ar bren canghennau neu weddillion pren am sawl blwyddyn. Oes fer sydd gan y sŵosborau ac mae angen dŵr, fel dafnau glaw, tARTH a nentydd arnynt. Mae pren canghennau'n debygol o fod â sborau gorffwys arnynt, ac ni ddylid eu symud oddi ar y safle i safle arall oherwydd gallent heintio safle arall oni bai bod rheolaethau bioddiogelwch ar waith. Mae llosgi tocion yn bosibl ond nid yw'r manteision yn fwy na'r risg o ledu'r sborau.

Byddai llosgi tocion yn creu problemau mwg a byddai ansawdd yr aer yn dirywio a byddai'n disbyddu'r tir o faethynnau ar gyfer y coed nesaf.

Mae llosgi mewn coetiroedd yn gysylltiedig â nifer o heintiau coed eraill fel "grwpiau yn marw" (ar gyfer coed conwydd yn unig)

### **A fydd yr ardaloedd hyn yn cael eu hail-blannu? Pryd? Gyda beth?**

Byddant. Mae'r cynlluniau a gyhoeddwyd gennym wedi newid yn sylweddol felly byddwn yn eu hadolygu ac yn ymgynghori â'r gymuned ar y pryd.

Ein nod eang yw adfer ein cynefinoedd coetir hynafol a chynyddu amrywiaeth yn ein coetiroedd er mwyn creu coetiroedd cymysg o wahanol rywogaethau a gwneud ein coedwigoedd yn fwy gwydn i allu gwrthsefyll plâu a heintiau.



### **Oes modd defnyddio'r pren unwaith y bydd y goeden wedi'i heintio?**

Oes, gellir defnyddio'r pren ond mae'n rhaid iddo fynd i felin goed drwyddedig. Mae'n rhaid i'r felin sicrhau nad yw'r pren yn cael ei gymysgu a bod y rhisgl a'r llwch lli yn cael eu gwaredu'n iawn ac nad ydynt yn cael eu defnyddio'n arddwriaethol.

### **I ble fydd y pren yn mynd unwaith y bydd yn gadael y goedwig?**

Bydd y pren yn gadael y goedwig yng nghronfa ddŵr Tal-y-bont. Bydd y pren yn mynd i ble bynnag y bydd marchnad ar ei gyfer. Bydd tua 50% o'r pren yn mynd tua'r A40 drwy Aber a bydd 50% yn mynd drwy Bontsticill.

### **Pam nad ydych chi wedi ailblannu'r ardal a gafodd ei chwympo yn 2009?**

Ailblannwyd yr ardal uwchben Gellibont ym mis Ebrill eleni gyda chymysgedd o goed llydanddail o amgylch yr ymylon a ffynidwydd Douglas yn y canol. Ni phlannwyd y coed llydanddail i gyd oherwydd bod defaid yn tresmasu. Bydd yr ardal hon yn cael ei phlannu yn y gaef.



### **Pam na allwch chi adeiladu ffordd i adael y goedwig drwy bentref Trefil?**

Ystyriwyd yr opsiwn hwn ond penderfynwyd ei fod yn anaddas, ac nad oedd modd ei gyflawni am y rhesymau canlynol.

1. Oherwydd bod llawr y goedwig mor serth, byddai'r llwybr yn gorfod bod yn hirach na'r ffordd a argymhellir gan y byddai'n rhaid igam ogamu i lawr y llechwedd. Er mwyn sicrhau defnydd diogel o'r ffordd, ni all y graddiant fod yn fwy na 10%.
2. Byddai unrhyw lwybr cysylltiol yn effeithio ar nifer o rywogaethau a chynefinoedd gwarchoddedig a dynodedig yn yr ardaloedd creigiog ar frig y llethr.
3. Mae'r llwybr rhwng y goedwig a'r ffordd breifat yn gilffordd

gyfyngedig, nid yw'r math hwn o hawl tramwy cyhoeddus yn agored i gerbydau.

4. Os byddai angen cyswllt dros y comin, byddai'n rhaid cael caniatâd y perchennog a chaniatâd cynllunio. Byddai'r prosesau hyn yn anodd a chostus.
5. Byddai gwahanu'r pwyntiau mynediad i'r goedwig yn ei gwneud yn anos rheoli'r goedwig a byddai'n rhaid cael dargyfeiriad 33km er mwyn mynd i un ochr o'r goedwig ac wedyn mynd i'r ochr arall.
6. Mae'r ffordd o bentref Trefil i'r goedwig yn eiddo i Ddug Beaufort. Nid oes gennym hawliau mynediad cyfreithiol i symud coed oddi yno ar hyd y ffordd hon.

### **Beth fyddwch chi'n ei wneud i liniaru ar effaith weledol y ffordd drwy'r coetir lled naturiol?**

Bydd lled cyffredinol y ffordd yn cael ei gyfyngu gymaint ag sy'n ymarferol yn yr ardal hon. Byddwn hefyd yn adfer y tir perthnasol gyda fflora priodol ar gyfer llawr coetir hynafol cyn gynted ag y bo modd ar ôl gorffen y gwaith.

### **Sut bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n rheoli defnydd anawdurdodedig o'r ffordd arfaethedig?**

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n gosod dau rwystr dur i atal mynediad gan gerbydau 4x4 o'r gilffordd gyfyngedig i'r ffordd arfaethedig. Os bydd traffig arall yn defnyddio'r ffordd newydd, bydd hyn yn groes i is-ddeddfau'r Comisiwn Coedwigaeth a fabwysiadwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Dylid rhoi gwybod i'r Heddlu am achosion o'r fath trwy wefan Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog <http://www.beacons-npa.gov.uk/the-authority/wardens/illegal-off-roading>

### **Pryd a sut y daeth Phytophthora ramorum i'r DU?**

Gwelwyd Phytophthora ramorum am y tro cyntaf ganol yr 1990au ac achosodd ddifrod helaeth i goed derw gwyllt yng Nghaliffornia ac Oregon, UDA (lle bathwyd yr enw '*Sudden oak death*'). Ar ôl hynny, canfuwyd y pathogen yn y diwydiant planhigfeydd yng Ngogledd America yn 2001.

Yn Ewrop, gan gynnwys y DU, canfuwyd P. ramorum i ddechrau ar blanhigion

Rhododendron, Viburnum a Camellia mewn planhigfeydd, a oedd yn tyfu mewn potiau. Fe'i gwelwyd gyntaf yn y DU yn 2002, ac aed ati i gyflwyno mesurau argyfwng. Roedd y mesurau cyntaf yn cynnwys dinistrio planhigion a oedd wedi'u heintio, gwahardd mewnforio deunydd a allai fod wedi'i heintio o ardaloedd o UDA a oedd wedi'u heffeithio, a hysbysu am symud stoc o blanhigfeydd a oedd o dan amheuaeth. Rhoddwyd gwybod i Bwyllgor Sefydlog yr UE ar Iechyd Planhigion am y mesurau, a chytunwyd ar fesurau argyfwng ledled yr UE ym mis Tachwedd 2002, yn seiliedig yn bennaf ar gamau gweithredu'r DU. Mae'r mesurau hynny'n dal ar waith.

Gwelwyd bod rhywogaethau'r Rhododendron, yn enwedig *R. Ponticum* sy'n tyfu yn y gwyllt yn blanhigyn lletyol ar gyfer yr organeb a chredwyd mai dyma'r prif ddull o ledaenu'r haint, gan arwain at ganfod yr enghreifftiau cyntaf mewn coed brodorol. Ym mis Ionawr 2009 canfuwyd yr enghraifft gyntaf o *P. ramorum* yn y gwyllt ar y planhigyn rhostir *Vaccinium myrtillus* (llus) ar safle yn Swydd Stafford. Ym mis Awst 2009, canfuwyd y pathogen ar goed llarwydd Siapaniaidd ar safleoedd yng Ngwlad yr Haf, Dyfnaint a Chernyw. Ers hynny fe'i gwelwyd yn helaeth mewn planhigfeydd llarwydd yn Ne-orllewin Lloegr, yng Nghymru ac yn Ne-orllewin yr Alban, gan arwain at gwympto coed ar hyd ardaloedd eang.



**Pa opsiynau eraill a ystyriodd Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer cais SPDO ffordd goedwig Dyffryn Cawnon, a pham nad yw'r opsiynau hyn yn addas?**

Edrychodd Cyfoeth Naturiol Cymru ar dri opsiwn ar gyfer cludo coed o'r goedwig:

1. Adeiladu ffordd i gysylltu â'r ffordd gyhoeddus yn y dyffryn yn Nyffryn Cawnon. Mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru amryw o hawliau mynediad cyfreithiol gyda'r gyntaf ar hyd y llwybr cul uwchben Cefn Crug, ac mae eraill yn mynd i mewn i'r goedwig drwy gaeau gerllaw fferm Pyrgad. Nid oedd y rhain yn addas oherwydd pryder ynglŷn ag effaith cludo'r coed ar y gymuned ac ar y ffordd gul.
2. Y llwybr arfaethedig sy'n cysylltu â seilwaith ffyrdd cyfredol y goedwig.
3. Cysylltu â ffordd bentref Trefil (mae'r rhesymau ynglŷn â pham mae hyn yn amhriodol wedi'i drafod mewn ateb blaenorol).

Ymholiadau pellach, cysylltwch â'r Rheolwr Ardal Lleol, Paul Dann - 0300 0680278